Radyr & Morganstown Community Council
Cyngor Cymuned Radur a Threforgan
SEDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED – HYSBYSIAD CYFETHOL

[Yn unol ag Adran 116 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011]

ENW'R GYMUNED	**Cyngor Cymuned Radur a Threforgan**
ENW'R WARD	**Threforgan**

RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN fod Un sedd (g)wag ar gyfer Cynghorydd ar gyfer y Ward a'r Gymuned uchod a bod y Cyngor Cymuned yn bwriadu cyfethol cynghorydd i'w llenwi.

Gellir gweld gwybodaeth am y Cyngor yn www.radyrandmorganstowncc.org

Ceisir datganiadau o ddiddordeb gan aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn cynrychioli eu cymuned ar y Cyngor Cymuned.

Mae'r Cyngor yn dymuno gwahodd pobl â diddordeb a phobl gymwys i gyflwyno eu ceisiadau i'r cyfeiriad isod ar gyfer rôl Cynghorydd trwy lythyr yn amlinellu'r canlynol:

- y cyfraniad y credwch y gallech ei wneud i waith y Cyngor;
- y rhinweddau personol y byddech yn eu cyflwyno i'r rôl;
- eich argaeledd ar gyfer mynychu cyfarfodydd.

Rhaid eich bod yn ddinesydd Prydeinig, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd a bod o leiaf 18 oed; a'ch bod yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- Bod (a pharhau i fod) wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned a enwir uchod;
- Yn ystod y 12 mis cyfan diwethaf eich bod wedi meddiannu, fel perchennog neu denant, dir neu eiddo arall yn y gymuned a enwir uchod;
- Roedd eich prif neu unig weithle dros y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neu
- Eich bod dros y 12 mis cyfan diwethaf wedi byw yn y gymuned neu o fewn 3 milltir iddi.

Ni chaiff rhai pobl sefyll gan gynnwys swyddogion cyflogedig y cyngor cymuned, unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngol methdalu a'r rheini a garcharwyd yn ddiweddar. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau ei fod yn gymwys i sefyll.

Os hoffech gael eich ystyried i gael eich cyfethol i'r sedd (g)wag neu yr hoffech ragor o wybodaeth am rôl Cynghorydd Cymuned cysylltwch â:

Julie Thomas
Clerc i Gyngor Cymuned Radur & Threforgan
Hen Ysgoldy'r Eglwys, Heol y Parc, Radur, Caerdydd CF15 8DF

Ffon: 02920 842213 Ebost: clerk@radyr.wales